**NODIADAU AR GYFER TROSGLWYDDIADAU'R CYNNIG**

Nodiadau i Dabl y Cynnig

1. ***Trosglwyddo £108,000 o Grp Prif Wariant Tai, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd i Grp Prif Wariant Archwiliwr Cyffredinol Cymru a £400,000 o'r Gronfa Gyfalaf Foderneiddio i Grp Prif Wariant Tai, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd.***

   Nodiadau:

   Trosglwyddo £108,000 o arian a arbedwyd ar gyllideb y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i gwrdd â diffyg yng nghyllideb Archwiliwr Cyffredinol Cymru ar gyfer costau TAW.

   Dyrannwyd £400,000 o'r Gronfa Gyfalaf Foderneiddio i adeiladu croesfannau cefnffordd ar y rhwydwaith llwybrau beicio genedlaethol.

2. ***Trosglwyddo £130,000 o'r Grp Prif Wariant Datblygu Economaidd i'r Grp Prif Wariant Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig***

Nodyn:

Trosglwyddo £130,000 o Gymorth Rhanbarthol Dewisol i'r Cynllun Amaeth-amgylcheddol ar gyfer ffermio organig.

***(3) Trosglwyddo £130,000 o'r Grp Prif Wariant Datblygu Economaidd gweler (2) uchod.***

4. ***Trosglwyddo £470,000 o'r Grp Prif Wariant Addysg a Hyfforddiant i Grp Prif Wariant Estyn a £600,000 o'r Gronfa Gyfalaf Foderneiddio i'r Grp Prif Wariant Addysg a Hyfforddiant***

   Nodiadau:

   Trosglwyddo £470,000 er mwyn i Estyn allu gwneud gwaith ansawdd ac asesu ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Bellach. Cytunwyd ar y trefniadau gweithio a throsglwyddo cyn trosglwyddo swyddogaethau ar 1 Gorffennaf 1999.

   Trosglwyddo £600,000 o'r Gronfa Foderneiddio Gyfalaf ar gyfer canolfan ymwelwyr yn

Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

5. ***Trosglwyddo £470,000 o'r Grp Prif Wariant Addysg a Hyfforddiant gweler (4) uchod***
6. ***Trosglwyddo £108,000 o Grp Prif Wariant Tai, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (1) uchod***
7. ***Trosglwyddo £400,000 i Grp Prif Wariant Tai, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd gweler (1) uchod, a £600,000 i'r Grp Prif Wariant Addysg a Hyfforddiant gweler (4) uchod***

**GRP PRIF WARIANT NEWYDD: OMBWDSMON GWEINYDDIAETH GYMREIG**

Nodyn:

**(a) Trosglwyddir y £300,000 ar gyfer Grp Prif Wariant Ombwdsmon Gweinyddiaeth Gymreig i'r Cynulliad fel rhan o Amcangyfrif Atodol y Gwanwyn o Swyddfa'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth.**